# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

# rhwng

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

# a'r

# Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# (CNB)

# Rhagfyr 2015

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Egwyddorion cydweithredu | 1 |
| Meysydd o gydweithredu | 2 |
| Rhannu gwybodaeth arferol | 2 |
| Croesgyfeirio pryderon | 2 |
| Cydweithio strategol | 3 |
| Cyfryngau/cyhoeddiadau sy'n perthyn i addysg nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru neu i ddarparwyr gofal iechyd, a thystiolaeth i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 4 |
| Rhannu gwybodaeth | 4 |
| Datrys anghydfod | 4 |
| Hyd ac adolygiad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn | 4 |
| Atodiad A – Cyfrifoldebau a swyddogaethau | 6 |
| Atodiad B – Prif gysylltiadau | 8 |

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

**Cyflwyniad**

1. Diben y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yw gosod y fframwaith ar gyfer perthynas weithio rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB).

2. Mae'r berthynas weithio rhwng AGIC a'r CNB yn rhan o'r drefn o gynnal system sicrhau ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru sy'n hyrwyddo diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel.

3. Arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru yw AGIC. Y CNB yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU. Nodir cyfrifoldebau a swyddogaethau AGIC a'r CNB yn Atodiad A.

4. Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn disodli cyfrifoldebau a swyddogaethau statudol AGIC a'r CNB, ac nid yw'n orfodol yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, mae AGIC a'r CNB yn cytuno i lynu wrth gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

**Egwyddorion cydweithredu**

5. Mae AGIC a'r CNB yn ymroddedig i system arolygu a rheoleiddio ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson, ac wedi ei thargedu – sef egwyddorion y Tasglu Rheoleiddio Gwell ar gyfer rheoleiddwyr nad ydynt yn rhai economaidd.

6. Mae AGIC a'r CNB yn bwriadu y bydd yr egwyddorion canlynol yn nodweddu eu perthynas weithio:

   - Yr angen i wneud penderfyniadau sy'n hyrwyddo diogelwch cleifion a gofal iechyd o ansawdd uchel.
   - Parch tuag at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall.
   - Yr angen i gynnal hyder cyhoeddus yn y ddau sefydliad ac yn y broses reoleiddio.
   - Bod y ddau sefydliad yn agored a thryloyw â'i gilydd o ran p'un a ystyrir cydweithrediad yn angenrheidiol neu'n briodol.
   - Yr angen i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac effeithlon.

**Meysydd o gydweithredu**

7. Mae'r berthynas weithio rhwng AGIC a'r CNB yn cynnwys cydweithio yn y meysydd canlynol:
    - Rhannu gwybodaeth arferol
    - Croesgyfeirio pryderon
    - Cydweithio strategol

8. Yn ogystal, mae AGIC yn gartref i swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) yng Nghymru. Corff statudol yw'r AGLl y darperir ar ei gyfer yn fframwaith deddfwriaethol y CNB. Mae'r CNB yn gosod safonau ar gyfer yr AGLl ac yn adolygu ei berfformiad. Gall gwaith cydweithredol sy'n perthyn i swyddogaeth yr AGLl fod yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r tri maes uchod.

9. Dynodir y swyddog cyswllt sydd â chyfrifoldeb dros bob maes yn Atodiad B.

**Rhannu gwybodaeth arferol**

10. Bydd y CNB ac AGIC yn sicrhau bod gwybodaeth arferol, sy'n deillio o'u gweithgarwch rheoleiddiol ac a all fod o gymorth i'r naill a'r llall wrth gyflawni eu gorchwyl, ar gael i'r corff arall.

**Croesgyfeirio pryderon**

11. Lle bydd AGIC neu'r CNB yn dod ar draws pryder y mae'n credu ei fod o fewn cylch gwaith y llall, bydd yn trosglwyddo'r pryder a'r wybodaeth berthnasol i'r unigolyn penodedig sydd â chyfrifoldeb perthnasol yn y sefydliad arall, a hynny cyn gynted â phosibl. Er budd y cleifion a'u diogelwch, ni fydd y sefydliad sy'n cyfeirio yn aros nes bydd ei adolygiad neu archwiliad ei hun wedi cael ei gwblhau.

12. Yn benodol, bydd AGIC yn cyfeirio'r canlynol at y CNB:

    - Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am nyrs neu fydwraig gofrestredig a allai beri bod amheuaeth ynghylch ei addasrwydd ef neu hi i ymarfer.

    - Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd a allai beri bod amheuaeth ynghylch ei addasrwydd i fod yn amgylchedd dysgu ar gyfer nyrsys a bydwragedd dan hyfforddiant.

    - Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol ynghylch darparu gofal nyrsio a bydwreigiaeth yn gyffredinol mewn sefydliad gofal iechyd a allai beri bod amheuaeth yn ymwneud ag arweinyddiaeth nyrsio a bydwreigiaeth.

- Unrhyw ymchwiliadau i risgiau a ddynodwyd, neu ymweliadau dilynol, lle dynodwyd bod pryder ynghylch arferion gwaith nyrs neu fydwraig unigol.

- Unrhyw faterion thematig ynghylch nyrsys a bydwragedd y gellid mynd i'r afael â nhw drwy osod safonau proffesiynol.

13. Yn benodol, bydd y CNB yn cyfeirio'r canlynol at AGIC:

- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd lle mae nyrsys a bydwragedd yn ymarfer a allai beri bod amheuaeth ynghylch ansawdd a diogelwch y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo.

- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd a allai beri bod amheuaeth ynghylch ansawdd yr oruchwyliaeth neu addasrwydd y sefydliad i fod yn amgylchedd dysgu ar gyfer nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn gofrestredig eto.

- Unrhyw fater sy'n codi o'i waith rheoleiddio a allai fod yn ddefnyddiol i AGIC wrth adolygu a datblygu ei hymagwedd tuag at reoleiddio.

- Gwybodaeth am unrhyw ymchwiliadau a gynhelir ganddo a allai fod yn berthnasol i gylch gwaith AGIC.

**Cydweithio strategol**

14. Bydd AGIC a'r CNB yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lle bydd eu hamcanion rheoleiddiol ar eu hennill drwy gydweithredu. Bydd y naill sefydliad yn bwriadu rhoi ystyriaeth i'r llall wrth gynllunio rhaglenni gwaith, ac yn dynodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd.

15. Gallant, drwy gytundeb, gyflawni gwaith arolygu, gwaith ymchwiliol, neu waith rheoleiddiol arall, ar y cyd. Drwy gydol unrhyw waith o’r fath, bydd AGIC a’r CNB yn ymddwyn yn unol â, ac yn glynu wrth, eu pwerau statudol eu hunain. Gallai'r gwaith hwn gynnwys:

- Adolygu gwybodaeth am sefydliad gofal iechyd ar y cyd

- Ymweliadau safle â sefydliad gofal iechyd

- Cyd-gynhyrchu dogfennau ac adroddiadau

- Cydlynu unrhyw gamau gweithredu a gynllunnir er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion

**Cyfryngau/cyhoeddiadau sy'n perthyn i addysg nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru neu i ddarparwyr gofal iechyd, a thystiolaeth i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

16. Bydd AGIC a'r CNB yn anelu at roi rhybudd digonol i'r llall (o leiaf 48 awr) a gwybodaeth ddigonol ynghylch unrhyw ddatganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau i'r cyhoedd a gynllunnir o flaen llaw ac y bydd angen i'r llall wybod amdanynt, efallai.

17. Bydd AGIC a'r CNB yn rhannu manylion â'i gilydd ynglŷn â thystiolaeth berthnasol i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau, pan fo hynny'n briodol.

18. Bydd AGIC a'r CNB yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn y dyddiad cyhoeddi ac ni fyddant yn gweithredu mewn modd a fydd yn peri i gynnwys y dogfennau hyn gael eu gwneud yn gyhoeddus cyn y dyddiad cyhoeddi a gynlluniwyd.

19. Bydd AGIC a'r CNB yn ymdrechu i sicrhau bod argymhellion ymchwiliadau ac adolygiadau yn cael eu cyfathrebu'n eang ac yn cael eu deall.

**Rhannu gwybodaeth**

20. Er mwyn gweithredu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, bydd angen i AGIC a'r CNB rannu gwybodaeth. Bydd yr holl drefniant ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac mewn unrhyw gytundebau ychwanegol yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, ac unrhyw godau ymarfer, fframweithiau neu bolisïau eraill gan AGIC a'r CNB sy'n berthnasol i wybodaeth bersonol gyfrinachol.

21. Mae AGIC a'r CNB yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Os bydd un sefydliad yn derbyn cais am wybodaeth sydd wedi dod yn wreiddiol o'r llall, bydd y sefydliad sy'n derbyn yn trafod y cais gyda'r sefydliad arall cyn ymateb.

**Datrys anghydfod**

22. Fel arfer, bydd unrhyw anghydfod rhwng AGIC a'r CNB yn cael ei ddatrys ar lefel weithio. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir ei uwchgyfeirio drwy'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, hyd at, ac yn cynnwys, Prif Weithredwr AGIC a Phrif Weithredwr a Chofrestrydd y CNB. Y nhw wedyn fydd yn gyfrifol ar y cyd am ddod i ganlyniad a fydd yn foddhaol i'r naill sefydliad a'r llall.

**Hyd ac adolygiad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn**

23. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei adolygu yn achlysurol, ac o leiaf bob dwy flynedd.

24. Mae'r ddau sefydliad wedi penodi bob o berson fydd yn gyfrifol am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, a rhoddir y manylion cyswllt yn Atodiad B.  Byddant yn cysylltu â’i gilydd yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol, er mwyn nodi unrhyw anawsterau sy'n dod i'r amlwg, ac er mwyn ateb unrhyw gwestiynau ynghylch dehongli'r Memorandwm hwn.

25. Bydd y swyddogion cyswllt penodedig sydd â chyfrifoldeb dros bob un o'r meysydd cydweithredu a ddynodir yn Atodiad B yn cydweithio yn ôl yr angen i gyflawni gwaith o ddydd i ddydd.

26. Er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn effeithiol, bydd Prif Weithredwr AGIC a Phrif Weithredwr a Chofrestrydd y CNB yn cyfarfod yn rheolaidd.

**Llofnodion**

**Kate Chamberlain**
**Prif Weithredwr**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**



**Dyddiad: Rhagfyr 2015**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**



**Dyddiad: Rhagyfr 2015**

## Atodiad A

### Cyfrifoldebau a swyddogaethau

1. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yn cydnabod cyfrifoldebau a swyddogaethau ei gilydd, a byddant yn ystyried y rhain wrth weithio gyda'i gilydd.

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

2. Arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru yw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

    - Gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
    - Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai.
    - Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu.
    - Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

3. Swyddogaeth graidd AGIC yw adolygu ac archwilio sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn darparu sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill bod gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da. Adolygir gwasanaethau ar sail amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau, a'r camau sydd eu hangen i gyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC hefyd yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig lle mae'n ymddangos bod diffygion systemig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi yn ddiymdroi. Yn ogystal, AGIC yw'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd yng Nghymru.

4. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru, ac er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi eu sefydlu er mwyn diogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

    - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003
    - Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig
    - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007
    - Goruchwyliaeth Statudol Bydwragedd fel y'i nodir yn Erthyglau 42 a 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001
    - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006

5. Mae AGIC yn gweithio’n agos gydag arolygiaethau a chyrff rheoleiddio eraill wrth gynnal adolygiadau traws-sector mewn gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol, ac wrth ddatblygu dulliau mwy cymesur a chydgysylltiol o adolygu a rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru.

6. Mae AGIC yn cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yng Nghymru, ar ran Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod y safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu monitro. Bydd AGIC yn parhau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r CNB, yn unol â Safonau a Rheolau'r CNB 2012, ac yn cyflwyno'r data sydd eu hangen ar y CNB ar gyfer y dull chwarterol o fonitro ansawdd a ddechreuodd ym mis Ebrill 2011. Mae AGIC, fel yr AGLl yng Nghymru, yn goruchwylio'n statudol pob bydwraig sy’n ymarfer yn yr ardal ddaearyddol.

**Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

7. Diben y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yw amddiffyn y cyhoedd a hyrwyddo hyder cyhoeddus yn y proffesiynau. Mae cyfrifoldebau a swyddogaethau'r CNB wedi cael eu nodi'n bennaf yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

8. Mae'r CNB yn gwneud y canlynol:

   - Yn cofrestru'r holl nyrsys a bydwragedd ac yn sicrhau eu bod nhw'n gymwys ac yn alluog i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn y DU.

   - Yn gosod y safonau addysgol ac ymarferol y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd eu cynnal er mwyn darparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson trwy gydol eu gyrfaoedd.

   - Yn sicrhau bod nyrsys a bydwragedd yn diweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth ac yn cynnal safonau eu cod proffesiynol.

   - Yn cadw golwg ar y fframwaith ar gyfer goruchwylio bydwragedd.

   - Yn gweithredu mewn ymateb i gwynion a phryderon am nyrsys a bydwragedd.

**Atodiad B**

**Prif gysylltiadau**

Bydd pwyntiau cyswllt penodol rhwng AGIC a'r CNB, fel a ganlyn:

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: 0300 062 8163

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
23 Portland Place
Llundain
W1B 1PZ
Ffôn: 020 7637 7181

**Prif Weithredwyr (dylid dilyn polisïau uwchgyfeirio mewnol cyn cyfeirio at Brif Weithredwyr)**

**AGIC**
Dr Kate Chamberlain
Prif Weithredwr
**E-bost:**
kate.chamberlain@wales.gsi.gov.uk

**CNB**
Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**E-bost:**
Jackie.smith@nmc-uk.org

**Swyddogion arweiniol – cyswllt strategol a'r rheiny sy'n gyfrifol am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

**AGIC**
Sarah Jones
Pennaeth Gwybodaeth a Datblygiad Corfforaethol
E-bost:
sarah.jones3@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 0300 062 8383

**CNB**
Emma Westcott
Cyfarwyddwr Cynorthwyol,
Strategaeth a Mewnwelediad
E-bost:emma.westcott@nmc-uk.org

Ffôn: 020 7681 5797

Cysylltiadau gweithredu AGIC - byddant yn cyfeirio at y CNB mewn perthynas â'r holl faterion croesgyfeirio pryderon a nodir isod, pan gânt eu canfod gan staff AGIC

**Addasrwydd i ymarfer**
Jaina Patel-Nathwani
Rheolwr cyswllt allanol a diogelu
Ffôn: 020 7681 5906
E-bost: Jaina.patel-nathwani@nmc-uk.org
Neu
intelligence@nmc-uk.org

**Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol AGIC**
Luke Moses
Gweinyddwr
E-bost: luke.moses@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 0300 025 6068

**Addysg a Sicrwydd Ansawdd yr AGLl**
Laura O'Sullivan
Rheolwr Cydymffurfio â Safonau
E-bost: Laura.o'sullivan@nmc-uk.org
Ffôn: 020 7681 5626

**Partneriaeth strategol**
Gemma Wood
Rheolwr Cysylltiadau Strategol
E-bost: Gemma.wood@nmc-uk.org
Ffôn: 020 7681 5312

**Diogelu Data a Chyfrinachedd**
Ruth Studley
Perchennog Asedau Gwybodaeth
E-bost:
ruth.studley@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 0300 062 8382

Clementine Adewunmi
Rheolwr Cofnodion ac Archifau
E-bost:
Clementine.adewunmi@nmc-uk.org
Ffôn: 020 7681 5309

**Cyfryngau**
Natalie Jones
Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
E-bost:
Natalie.Jones@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 0300 062 8448

Leila Harris-Ryberg
Rheolwr Cyfryngau
E-bost:
Leila.harris-ryberg@nmc-uk.org
Ffôn: 020 7681 5884